



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Institute of Education
Addysg i Gymru Education for Wales

LLAWLYFR MODWL

Cod y modwl: ECGE4002PC

Teitl y modwl:

Sgiliau Academaidd i Fyfyrwyr

BA ADDYSG GYNRADD

gyda Statws Athro Cymwysedig

LEFEL 4

YR ATHROFA

2019-2020

1. Manylion Cysylltu

Os bydd angen trafod rhywbeth sy'n ymwneud â'r modwl arnoch, cysylltwch â'r:

Arweinydd Modwl

*Elaine Sharpling

E-bost: elaine.sharpling@uwtsd.ac.uk

Tîm y Modwl

Angella Cooze

Tom Cox

Nerys Defis

Sioned Hughes

Nanna Ryder

2. Ein disgwyliadau

Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau'r modwl a'r rhaglen ac rydym yma i'ch helpu.

Dylech:

- Wneud defnydd da o gyfleusterau ac adnoddau'r Brifysgol
- Mynychu sesiynau a chymryd rhan ynddynt
- Ymddwyn yn gyfrifol
- Cyflwyno aseiniadau erbyn y dyddiad terfyn
- Ymroi a chymryd rhan ym mhob sesiwn

Darllenwch Reoliadau'r Brifysgol i Fyfirwyr

3. Amcanion a Deilliannau Dysgu

AMCANION

- Cyflwyno sgiliau academiaidd addysg uwch a chyfathrebu effeithiol yng nghydestun rhaglen astudio'r myfyrwyr.

DEILLIANNAU DYSGU

Ar ôl cwblhau'r modwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r athro dan hyfforddiant allu dangos y gallu i:

- ymgymryd â darllen, ysgrifennu a chyfeirnod academaidd a chydabod pwysigrwydd hynny, a datblygu hyder wrth gyfathrebu a chyflwyno i gynulleidfaoedd gwahanol ac i ddibenion gwahanol;
- archwilio gwahanol arddulliau a systemau cyfathrebu;
- datblygu cymhwysedd digidol a sgiliau rhifedd yn unol â gofynion academiaidd y rhaglen;
- trefnu'r hyn a ddysgant yn effeithiol ac adfyfrio ar eu cynnydd eu hunain a'u datblygiad i'r dyfodol.

Perthynas â phedwar diben y Cwricwlwm i Gymru 2022:

Datblygu plant a phobl ifanc yn:	Perthynas â'r modwl hwn: Bydd myfyrwyr yn gallu:
Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes.	Trwy ganolbwyntio arnyn nhw'u hunain fel dysgwyr a mynd i'r afael â dysgu heriol a chymhleth;
Cyfranwyr mentrus, creadigol, sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith.	Trwy gael eu hysbrydoli trwy rannu syniadau ac arferion wrth weithio gyda chydweithwyr, ac addasu'r rhain ar gyfer eu cymuned ddysgu eu hunain;
Dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd.	Trwy wynebu heriau deallusol sy'n achosi iddynt ail-archwilio eu credoau a'u harferion;
Unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw	Trwy gysylltu'r hyn a ddysgir â sefyllfaoedd

bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.	bywyd go iawn.
--	----------------

4. Cyflwyniad i'r Modwl

Bydd y modwl yn cynnwys:

- beth rydym ni'n ei olygu wrth astudio academiaidd yn y brifysgol - datblygu meddwl beirniadol ac adfyfrio;
- pwysigrwydd eiddo deallusol - datblygu dealltwriaeth o gyfeirnod i ac arddulliau cyfeirnod a sut i osgoi llên-ladrad;
- sut i ysgrifennu ar gyfer ystod o gynulleidfaoedd yn cynnwys gofynion academiaidd megis cymryd nodiadau, cynllunio ac ysgrifennu traethodau, crynhoi, gosodiad y dudalen, aralleirio, aseiniadau, ysgrifennu adfyfyriol, ysgrifennu adroddiadau, ysgrifennu llythyrau a defnydd priodol o e-byst;
- archwilio sgiliau llafar a chyflwyno. Bydd myfyrwyr yn archwilio'r defnydd o gyflwyniadau unigol a grŵp, cyflwyniadau PowerPoint, cyflwyniadau poster ac adolygiadau gan gymheiriaid;
- ymglyfarwyddo â llythrennedd digidol a datblygu gallu, sgiliau a hyder yn y defnydd ohono. Er enghraifft bydd myfyrwyr yn defnyddio adnoddau electronig a digidol i hwyluso a chefnogi ymchwil personol, cyfathrebu a chyflwyno gwaith;
- datblygu sgiliau rheoli priodol, er enghraifft rheoli amser a gweithio o fewn terfynau amser; datblygu sgiliau rhifedd priodol, er enghraifft ymwybyddiaeth o ddata ac ystadegau a ddefnyddir mewn ymchwil;
- archwilio sut i ysgogi a chynnal agwedd gadarnhaol at astudio a datblygu strategaethau i sicrhau llwyddiant i'r dyfodol. Er enghraifft, rheoli amser, cynllunio effeithiol a digonol, cymhelliad, gweithio o fewn terfynau amser, gweithio'n rhan o grŵp, cynllunio datblygiad personol gan gynnwys gosod targedau ac atgyrchedd.

5. Cynnwys y Modwl:

Perthynas â'r pedair Nodwedd Ymchwil yn cael ei mapio ar draws cynnwys y rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon:

Bod yn Ymchwilydd Moesegol	Bod yn ymwybodol o'r broses foesegol a'r disgwyliadau
Bod yn Ymchwilydd Sgeptigol	Gofyn cwestiynau ynghylch ffynonellau tystiolaeth i ddeall dilysrwydd a dibynadwyedd ymchwil addysgol.

AMLINELLIAD O'R SESIYNAU

D.S. Gall trefn y sesiynau hyn newid yn ôl yr amgylchiadau a bydd y themâu dan sylw yn gorgyffwrdd.

Sesiwn	Cynnwys	Tiwtor
1	Ymgysgu ag astudio am radd. Cyflwyniad i'r modwl, yr adnoddau sydd ar gael ar Moodle a'r cymorth sydd ar gael o fewn y brifysgol. Deall disgwyliadau staff a myfyrwyr o ran astudio am radd â SAC ar lefel Addysg Uwch (AU), e.e. protocol e-byst, ymateb mewn darlithoedd.	ES/NR/SVH 4/10/19
2	Y llwybr tuag at ddod yn fyfyrwr AU llwyddiannus - sgiliau, agweddau, cyfrifoldebau a blaenoriaethau. Datblygu annibyniaeth, hunan-gymhelliad, rheoli tasgau ac amser. Cynllunio datblygiad personol.	ES/NR/SVH 4/10/19
3	Meddwl yn feirniadol. Sgiliau ymchwil craidd yn y brifysgol. Darllen a rheoli gwybodaeth gan gynnwys gwerthuso ansawdd a chynnwys ffynonellau ar-lein. Gwneud yn fawr o lyfrgell y brifysgol.	ES/AC/SVH 7/10/19

4	Sgiliau ymchwil craidd yn y brifysgol. Darllen a rheoli gwybodaeth gan gynnwys gwerthuso ansawdd a chynnwys adnoddau ar-lein. Gwneud yn fawr o lyfrgell y brifysgol. Datblygu strategaethau iechyd meddwl cadarnhaol gan gynnwys rheoli heriau a phryderon.	ES/AC/SVH 7/10/19
5	Datblygu sgiliau rhifedd priodol ar gyfer astudio. Ymwybyddiaeth o ddata ac ystadegau a ddefnyddir mewn ymchwil.	RW/ND 14/10/19
6	Datblygu sgiliau rhifedd priodol ar gyfer astudio. Ymwybyddiaeth o ddata ac ystadegau a ddefnyddir mewn ymchwil.	RW/ND 14/10/19
7	Datblygu arddull ysgrifennu academiaidd e.e. goddrychedd / gwrthrychedd, disgrifiadol, dadleugar, gwerthusol, dadansoddol. Cynllunio traethodau - dulliau a strategaethau. Ysgrifennu e.e. crynhoi, gosodiad y dudalen, aralleirio, ysgrifennu adfyfyriol, ysgrifennu adroddiadau a llythyrau. Cyfeirnod a defnyddio arddull gyfeirnod Harvard a ddefnyddir gan y brifysgol. Cydnabod gwaith pobl eraill ac osgoi llên-ladrad.	ES/AC/SVH 21/10/19
8	Bod yn gyfathrebwr effeithiol - paratoi a rhoi cyflwyniadau llafar i ystod o gynulleidfaoedd. Defnyddio adnoddau digidol a rhai eraill i gyfleu a chyflwyno syniadau fel unigolion a grwpiau e.e. cyflwyniadau PowerPoint, posterï academiaidd, cyflwyniadau fideo ac ati. (Rhan 1) Moodle a Turnitin	ES/AC/SVH 21/10/19
9	Bod yn gyfathrebwr effeithiol - paratoi a rhoi cyflwyniadau llafar i ystod o gynulleidfaoedd. Defnyddio adnoddau digidol a rhai eraill i gyfleu a chyflwyno syniadau fel unigolion a grwpiau e.e. cyflwyniadau PowerPoint, posterï academiaidd, cyflwyniadau fideo ac ati. (Rhan 2)	ES/TC/ND 28/10/19
10	Sesiwn adolygu. Gweithgaredd y farchnad i adfyfyrio ar y sgiliau a ddatblygwyd o fewn y modwl. Cyfle i rannu enghreifftiau o waith a baratowyd ar gyfer y portffolio ac i ymarfer sgiliau cyflwyno ar gyfer cyflwyniadau llafar.	ES/TC/ND 28/10/19

6. Tasgau asesu a chanllawiau

COD Y MODWL	TEITL Y MODWL	DULL ASESU
ECGE4002PC	Sgiliau Academaidd i Fyfyrwyr	Elfen Asesu 1 – 50% Portffolio o weithgareddau (1000 o eiriau) Elfen Asesu 2 – 50% Cyflwyniad Unigol (10 munud) Dyddiad Cyflwyno: 07/11/19 (23:59 p.m.)

Gweler y ffurflen Manyleb Asesu (ar Moodle) am wybodaeth asesu a chanllawiau manylach.

7. Rhestr ddarllen

RHESTR DDARLLEN

Categori	Eitemau'r Rhestr Ddarllen	Electronig*
Hanfodol	Burns, T. & Sinfield, S. (2016) <i>Essential study skills: the complete guide to success at university</i> (4 th ed). London: Sage.	☐
Hanfodol	Cottrell, S. (2013) <i>The Study Skills Handbook</i> (4 th ed). Basingstoke: Palgrave MacMillan.	☐
Hanfodol	Godfrey, J. (2013) <i>How to use your reading in your essays</i> (2 nd ed). Basingstoke: Palgrave MacMillan.	☒
Hanfodol	Harrison, M., Jakeman, V. and Paterson, K. (2012) <i>Improve your grammar</i> . Basingstoke: Palgrave MacMillan.	☐
Hanfodol	Judge, B. (2009) <i>Critical Thinking Skills for Education Students</i> . Exeter: Learning Matters.	☐
Hanfodol	Moore, S., Neville, C. and Murphy, M. (2010) <i>The ultimate study</i>	☐

	<i>skills handbook</i> . Maidenhead: McGraw-Hill, Open University Press.	
Hanfodol	Pears, R. & Shields, G. (2017) <i>Cite them right: the essential referencing guide</i> . Basingstoke: Palgrave MacMillan.	☒
Hanfodol	Pears, R. & Shields, G. (2016) <i>Cite them right: the essential referencing guide</i> . Basingstoke: Palgrave MacMillan.	☐
Pellach	Bedford, D. and Wilson, E. (2009). <i>Study skills for part-time students</i> . Harlow: Prentice Hall.	☐
Pellach	Cottrell, S. (2010) <i>Skills for Success: The Personal Development Planning Handbook</i> (2 nd ed.) Hampshire: Palgrave MacMillan.	☐
Pellach	Pritchards, A. M. (2008) <i>Studying and Learning at University: Vital Skills for Success in your Degree</i> . London: Sage Publications.	☒
Pellach	Savage, M. and Barnett, A. (2015) <i>Digital Literacy for Primary Teachers</i> . Northwich: Critical Publishing Limited.	☒
Pellach	van Emden, J. & Becker, L. (2010) <i>Presentation Skills for Students</i> (2 nd ed). Basingstoke: Palgrave Macmillan.	☐
Pellach	http://www.skills4studycampus.com/palgrave/	☒

